

Dafydd Jones o Gaeo, 1711–77

Porthmon, emynydd a bardd

Mae arna'i eisiau zel,
 I 'nghymell at dy waith,
 Nid oddiar ofn y gosp a ddel,
 Nac am y gyflog chwaith;
 Ond gwir ddymuniad llawn,
 Dderchafu'th gyfiawn glod,
 Am iti wrthyf drugarhau,
 Ac edrych arna'i erioed.

Dafydd Jones

Ganwyd Dafydd Jones yng Nghwm Gogerddan, Nant Cilgwyn, Cao, sir Gaerfyrddin, yn fab i Daniel John a oedd yn borthmon. Ni wyddom ddim am ei blentyndod ond efallai iddo dderbyn addysg elfennol gan David Williams ym Mwlch-y-rhiw. Y mae dirgelwch sut y dysgodd Saesneg cystal, a'r tebygolrwydd yw ei fod wedi dysgu'r iaith fain wrth ddilyn ei alwedigaeth fel porthmon yn Lloegr. Yr oedd siroedd Aberteifi, Caerfyrddin a Phenfro yn enwog am eu porthmyn a gyrrwyd anifeiliaid yn gyson i ffeiriau Barnet, Maidstone a threfi eraill Lloegr.

Ystyrid porthmyn yn ddynion garw oedd yn fwy na pharod i fudrelwa pan fyddai'r cyfle'n codi. Dywedir i Dafydd Jones troedigaeth wrth ddychwelyd o daith i Loegr. Trodd i mewn i hen gapel Troedrhiwdalar, gerllaw Llanfair-ym-Muallt, a chyn diwedd yr oedfa daeth i gredu yn Iesu Grist fel Gwardedwr. Wedi dychwelyd ymaelododd yn eglwys Annibynnol Crug-y-bar lle'r oedd y Parch. John Harris yn weinidog a bu'n aelod gweithgar yno gydol ei oes.

Y mae hanes am Dafydd Jones yn Llanbedr Pont Steffan yn gwrando ar bregethwr o'r enw Perkins yn pregethu yn y Pownnd wrth ymyl y bont a thyrfa wedi ymgynnull i wrando. Ymosodwyd ar y tŷ gan haid o ddihirod a gyflogid gan ddyn lleol a wrthwynebai Ymneilltuaeth. Llusgwyd y pregethwr a'i gynulleidfa i'r stryd, ond aeth Dafydd Jones ar ei liniau a gweddio gyda'r fath arddeliad fel

y dychrynodd yr erlidwyr a ffoi.

Dechreuodd farddoni yn ifanc a gallai weu pennill am droeon trwstan yn rhwydd. Meistrolodd y gynghanedd a chyfansoddodd nifer o englynion. Yn fuan wedi ei dröedigaeth aeth ati i gyfieithu salmau poblogaidd Dr Isaac Watts, sef *The Psalms of David imitated in New Testament Language*, i'r Gymraeg. Treuliodd rai blynyddoedd wrth y gwaith ac ymddangosodd y gyfrol gyntaf, sef *Salmau Dafydd*, ym 1753, ac adargraffiadau ohoni ym 1766 a 1802. Daeth Salmau Watts, yn boblogaidd yn eu gwsg Gymraeg i'r fath raddau fel y cyhoeddwyd hwy ym Meibl Peter Williams ym 1822. Ym 1771 cyhoeddwyd ei gyfieithiad o waith arall gan Dr Watts sef cyfrol ar gyfer plant, *Divine and Moral Songs*, yn dwyn y teitl *Caniadau Dwyfol*.

Cyhoeddwyd yr emyn cyntaf o'i waith gan William Williams, Pantycelyn, yn y bumed ran o'i *Aleluia* ym 1747. Cyhoeddodd hefyd lyfrau emynau oedd yn cynnwys cyfieithiadau a'i waith gwreiddiol ei hun, yn eu plith *Difyrrwch i'r Pererinion* (1764) a *Hymnau a Chaniadau Ysrydol*.

Priododd ag Ann Jones o Abercarfan, Llanddewibrefi, ond bu hi farw ym 1748 gan adael dwy o ferched. Ailbriododd â Miss Price o Hafod Dafolog, Llanwrda, ac fe gawsant bump o ferched. Bu farw ar 30 Awst 1777 yn 66 mlwydd oed a chladdwyd ef wrth hen gapel Crug-y-Bar.